14EG O FAWRTH

# Ysgol Treganna

Cylchlythyr Wythnosol



## Wythnos yma

### Eisteddfod Cylch yr Urdd

Diolch i bawb wnaeth ddod i'r Eisteddfod Cylch dydd Sadwrn. Diolch i'r holl rieni a'r staff am eich cefnogaeth.Eleni am y tro cyntaf, ni chynhaliwyd clyweliadau mewnol yn yr ysgol ac roedd cyfle i bawb gystadlu yn yr Eisteddfod. Mae'r staff dros yr wythnosau diwethaf wedi bod yn dysgu'r darnau adrodd a'r canu i bawb yn yr ysgol er mwyn sicrhau bod pob un disgybl yn cael yr un cyfle. Dydd Sadwrn, roedd yn anhygoel i weld dros 100 o ddisgyblion Treganna yn cael y cyfle i gystadlu a chanran mawr ohonynt yn cystadlu am y tro cyntaf. Llongyfarchiadau enfawr i bob un ohonoch, rydym mor falch o ymdrech pawb! Cawsom lwyddiant mawr yn yr Eisteddfod a bydd disgyblion Treganna yn cystadlu yn y cystadlaethau unawd blwyddyn 2 ac iau, llefaru blwyddyn 2 ac iau, unawd bl 3 a 4, llefaru bl 3 a 4, unawd bl 5 a 6, llefaru bl 5 a 6, Alaw werin bl 6 ac iau a'r ddeuawd blwyddyn 6 ac iau yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Tipyn o gamp! Bydd y Gân Actol, yr ensemble lleisiol, y parti Cerdd Dant, parti deulais Bl 6, parti deulais blwyddyn 5 a'r unawdwyr Cerdd Dant hefyd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Sir. Mae'r holl ganlyniadau ar ein cyfrif Instagram. Diolch unwaith eto i bawb am eich cefnogaeth ac i'r staff am roi'r holl gyfleoedd yma i'r disgyblion.

### Eisteddfod Ddawns yr Urdd

Llongyfarchiadau mawr i bawb wnaeth gystadlu neithiwr yn Eisteddfod Ddawns Sir yr Urdd. Da iawn i Lefi (dawns disgo unigol bl 6 ac iau), grwpiau Dawnsio Gwerin bl 3 a 4, y grŵp dawns Aml Gyfrwng, grŵp dawns Hip-hop, Caio Jon a Caio Ifan (dawns stepio unigol i fechgyn bl 9 ac iau) am berfformiadau gwych! Mae'r holl ganlyniadau ar ein cyfrif Instagram. Llongyfarchiadau mawr i Caio Ifan am ennill y gystadleuaeth stepio unigol ac i'r grŵp dawns Aml Gyfrwng am ennill. Bydd Caio a'r grŵp dawns Aml Gyfrwng yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Margam yn ystod Sulgwyn. Diolch i chi fel rhieni am eich cefnogaeth ac i staff yr ysgol am eich holl waith caled. Diolch i ferched Plasmawr am helpu gyda'r ddawns Aml Gyfrwng ac i Dancefit am eu cymorth gyda'r ddawns Hip-hop.

## Calendr

Disgo'r GRhA
20/3/25

Eisteddfod Theatr yr Urdd
1/4/25

Eisteddfod Sir yr Urdd
5/4/25

## Eisteddfod Ysgol

Llongyfarchiadau i bawb wnaeth gystadlu yn ein heisteddfod ysgol ddoe. Cawsom fore hyfryd yn dathlu canlyniadau llenyddiaeth a gwaith celf disgyblion yr ysgol. Diolch i'r beirniaid Mrs Kate Melsom-John, Ms Nia Morgan, Mr Rhys Harries a Ms Mari Stevens. Diolch hefyd i Mrs Fflur Rowlands o Ysgol Plamsawr am gyd-arwain yr Eisteddfod.Mae holl ganlyniadau'r Eisteddfod ar ein tudalen Instagram.

Cyflwynwyd y darian eleni i Nel Roberts o flwyddyn 6 am ysgrifennu ymson fel faciwî yn yr Ail Ryfel Byd. Yn ôl y beirniad "Mae'r darn yma'n cydio'r darllenydd o'r gair cyntaf. Mae'r awdur yn cyfleu stori ddiddorol a deialog fywiog iawn. Trwy'r cyfan, mae teimladau ac emosiynau'r cymeriad yn agos iawn i'r wyneb. Rwy'n tybio y gallet ysgrifennu sgriptiau gwych!"
Llongyfarchiadau mawr i Nel!

## Prif gatiau'r ysgol

Yn unol â chyngor gan swyddog Iechyd a Diogelwch y sir, byddwn yn cau prif glwydi'r ysgol o 9.15yb tan 3.10yp bob dydd.

Byddwn yn treialu'r system hon am bythefnos, ac ar ôl hynny, byddwn yn adolygu'r sefyllfa gyda'r swyddog Iechyd a Diogelwch.

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad.

## Disgo'r GRhA

Bydd y GRhA yn trefnu disgo Pasg ar nos Iau'r 20fed o Fawrth. Bydd disco disgyblion y dosbarth Derbyn/ Bl 1 o 3.30 - 4.15, disco disgyblion Bl 2 a 3 4.30 - 5.15 a disco Bl 4,5 a 6 5.30 - 6.15. Bydd gwirfoddolwyr o'r GRhA a staff yr ysgol yn gofalu ar ôl y disgyblion felly nid oes angen i chi fel rhieni i aros.
Mae tocynnau'r disgo ar werth ar Parent Pay.

Diolch i'r GRhA am eu holl waith caled ac edrychwn ymlaen at ddigwyddiadau'r tymor.

## Pêl-droed

Llongyfarchiadau i dîm pêl droed bechgyn yr ysgol am ennill twrnamaint 5 bob ochr Caerdydd a'r Fro, a bydd y tîm nawr yn mynd trwy i'r rownd nesaf.
Diolch i'r staff sy'n eu hyfforddi.

## Y Nyth

**Fforwm Rhieni (Awtistiaeth/ADHD)**
Diolch o galon i'r rhieni a fynychodd bore 'ma. Rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth bob amser! Diolch hefyd i Elen Derrick am rannu ei hamser a'i harbenigedd â ni.

**Gweithdy i Rieni (gyda choffi, a chacen!)**
Mi fydd Dr Luke Ryan, Seicolegydd Addysg yr ysgol, yn cynnal gweithdy i rieni ar ddydd Gwener, 4ydd o Ebrill (9.15yb) ar Gymell Emosiynau (Emotion Coaching).


"Mae Cymell Emosiynau'n helpu plant a phobl ifanc i ddeall y gwahanol emosiynau y maent yn eu profi, pam eu bod yn digwydd, a sut i ddelio â nhw." (Gottman, 1997)




Mi fydd y sesiwn yn para oddeutu 45 munud ac yn cael ei gyflwyno drwy gyfrwng y Saesneg. Croeso cynnes i bawb, ond a fyddech gystal â chlicio yma i gofrestru eich presenoldeb.

## Makaton

Dyma arwydd Makaton yr wythnos. Rydym yn annog pawb yn yr ysgol i ymarfer a defnyddio'r arwydd yn ystod yr wythnos. Diolch i ddisgyblion y dosbarth Meithrin am ddangos i ni sut i wneud yr arwyddion yma.




## Patrwm iaith yr wythnos

**Patrwm iaith yr wythnos**
Ble es ti ddoe/ dros y penwythnos?
Es i…

**Her**
Beth yw dy wyliau delfrydol?
Yn ddelfrydol, byddwn i'n hoffi….

**Testun trafod yr wythnos**
Dywedwch stori am ennill rhywbeth.

**Cân yr wythnos**
Gwilym a Hana Lili- Cyn bo hir

**Idiom yr wythnos**
Siarad trwy ei het